

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor - 12ed o Chwefror 2008.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr T Les Jones (Cadair) – Nantlle; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Jaqueline A Roberts – Nebo; Harry W Owen, Dafydd Glyn Owen, D Martin Williams, Sharon Wynne Owen – Talysarn; Ifan Glyn Jones, Iwan Lloyd Williams, Ann Vaughan Jones – Penygroes; Dilwyn Lloyd – Cyngorydd Sir.

Hysbyswyd y Cyngor y bydd safle tirlenwi Cilgwyn yn parhau i fod yn agored tan ddiwedd 2008 – y dyddiad cau wedi ei ymestyn.

Mae hysbysfwrdd wedi ei osod ym Mynwent Gorffwysfa ar gyfer arddangos Rheolau Mynwentydd a chanllawiau archwilio cerrig beddi.

Derbyniodd y Cyngor y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer rhoi sylwadau arnynt:

- *Stad Ddiwydiannol Penygroes – gosod ffens 2.4m o uchder ynghyd a giat bersonel.
- * Cerrig Drudion, Nebo – estyniadau cefn.
- *2 Bryn Hwylfa, Penygroes – estyniadau unllawr ar ochr a chefn yr eiddo.

Caniatawyd y ceisiadau canlynol gan Gyngor Gwynedd:

- *Un ty newydd - Hen iard Lo, Ffordd yr Orsaf, Talysarn.
- *Estyniad llawr cyntaf - 22 Stryd Fawr, Penygroes.
- *Fferm Caergofaint - trosi adeilad amaethyddol yn dy.
- *1 Bank Quay, Talysarn - codi dau dy par.

Llythyrau Gan Gyngor Gwynedd

*Derbyniwyd llythyr o Gyfadran yr Amgylchedd parthed diogelwch safle Wynstanley a'r garejes ar y lon tu ol y Co-op. Yn ol y llythyr, nid oedd unrhyw achos yn peri pryder o ran diogelwch y safleoedd.
*Fe'n hysbyswyd y bydd arwydd 'Dim Cwn' yn cael ei osod yng nghae chwarae Cwting.

Adroddiadau Pentrefi Llanllyfni Caban toiled wedi ei adael ger mynwent Gorffwysfa ers peth amser, ac angen ei glirio oddi yno. *Arwydd am Clynnog ger Berth wedi ei droi – byddwn yn cysylltu a Cyngor Gwynedd.

Nantlle: Bydd y Cyngor yn holi am y gwasanaeth casglu plastigion i'r pentref.

Penygroes: Y dau folard wedi eu taro i lawr wrth y bont yn croesi'r A487, a ceir yn gyrru drosti; Angen gosod gwyneb newydd ar y llwybr sydd yn rhedeg o Eifionydd Farmers i gylchfan Poveys; Angen ail-edrych ar gael ffordd unffordd yn Ffordd Llwyndu – y sefyllfa yma yn waeth nag erioed, mae'n gul ofnadwy a mae ceir yn cael eu parcio ar ochr y ffordd ar ei hyd. Byddwn yn cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd am y materion yma.

Talysarn: Wal lechi angen sylw ger pont Coed Madog; Wal wedi disgyn i'r palmant yn Sgwar Petris (Bro Silyn). Pryderus am gyflwr wal Lon yr Eglwys.

Ceisiadau Ariannol 2007-08. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda phawb a geisiodd am gyfraniad i ofyn am fantolen ariannol. Penderfynwyd dim ond cysidro'r ceisiadau a oedd wedi ymateb a gyrru mantolen.

Penderfynwyd cyfrannu £40 yr un i'r canlynol:

- Neuadd Goffa Llanllyfni
- Papur Bro Lleu
- Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni
- Gofal Mewn Galar Cruse
- Cymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle
- Ambiwylans Awyr Cymru

- Radio Ysbyty Gwynedd
- Seindorf Arian Frenhinol Dyffryn Nantlle
- Grwp Theatr Talysarn
- Band Iau Dyffryn Nantlle
- Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
- Clwb Ffermwyr ifanc Eryri
- Dim Cyfle Dyffryn Nantlle
- Trealon Cwn Defaid Llanllyfni
- Clwb Pel Droed Dyffryn Nantlle

Bydd y Cyngor yn neilltuo arian tuag at ceisiadau ariannol fydd yn ymwneud a'r Urdd.

Llwybrau a Mynwentydd: Derbyniwyd cwynion am faw cwn ar Lon Eifion o giat Tanybryn am Borthmadog. Byddwn yn ysgrifennu at Adran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

Materion yn ymwneud a'r heddlu: Parhau i gael trafferthion yn y pentrefi. Bydd Swyddog yr Heddlu yn cael gwahoddiad I fynychu cyfarfod y Cyngor fis Ebrill.

Maer' Cyngor Cymuned yn bryderus iawn bod loriau trymion a bysiau yn cael eu gyrru ar hyd Allt Goch, er bod cyfyngiad pwysau arni i atal hyn. Rydym yn annog unrhyw un sydd yn gweld loriau neu fysiau yn teithio ar hyd y lon yma i roi manylion rhif y cerbyd, dyddiad ac amser i'r Heddlu.